**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO - DYDD IAU, 20 EBRILL 2023 DYDD IAU, 20 EBRILL 2023**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: L. WINNETT (CADEIRYDD)

Councillors D. Bevan (Is-gadeirydd)
P. Baldwin
M. Day
J. Gardner
J. Hill
W. Hodgins
G. Humphreys
J. Thomas
D. Wilkshire

WITH: Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau
Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu
Rheolwr Tîm Cynlluniau Datblygu
Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (x2)
Arweinydd Tîm Amgylchedd Adeiledig
Swyddog Cynllunio (x3)
Swyddog Cydymffurfiaeth
Cyfreithiwr
Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata a Mynediad Cwsmeriaid

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 2** | <u>**YMDDIHEURIADAU**</u><br><br>Ni adroddwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| **No. 3** | <u>**DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**</u><br><br>Nodwyd y datganiadau buddiannau dilynol:-<br><br><u>Cynghorydd W. Hodgins</u><br>Eitem Rhif 5 – Adroddiad Ceisiadau Cynllunio – Cais C/2023/0012 - Unedau 2 a 3A (Home Bargains a Peacocks) Parc Manwerthu Lakeside Nantyglo Brynmawr NP23 4SL – Gosod llawr mezzanine yn Unedau 2 a 3A.<br><br>Dywedwyd na fyddai'r Cynghorydd Hodgins yn cymryd yn y rhan yn y drafodaeth nac yn pleidleisio.<br><br><u>Cynghorydd W. Hodgins</u><br><u>Eitem Eithriedig 8 – Adroddiad Diweddaru Erlyniad Gorfodaeth</u><br><br>Dywedwyd na fydd y Cynghorydd Hodgins yn cymryd rhan yn y drafodaeth ar gyfer un o'r safleoedd a nodir yn yr adroddiad. | |
| **No. 4** | <u>**MEYSYDD AR GYFER SESIYNAU GWYBODAETH A HYFFORDDIANT AELODAU**</u><br><br>Ni chafodd unrhyw feysydd ar gyfer Hyfforddiant/Sesiynau Gwybodaeth i Aelodau eu nodi. | |
| **No. 5** | <u>**ADRODDIAD CEISIADAU CYNLLUNIO**</u><br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu.<br><br><u>**Cais Rhif C/2023/0004**</u><br><u>**The Kings Arms, Heol Newchurch, Glynebwy NP23 5BD**</u><br><u>**Newid defnydd tŷ tafarn gydag ystafelloedd gwely gosod (A3) i Westy (C1)**</u><br><br>Cynigiodd Aelod bod Llyfr Cofrestru Presenoldeb ar gyfer ymweliadau heb fod yn hirach na 28 diwrnod yn cael eu hychwanegu at yr amodau cynllunio. Eiliwyd y cynnig. | |

Mewn pleidlais

PENDERFYNWYD yn unfrydol i **ROI** caniatâd cynllunio, gyda'r amodau a fanylir yn yr adroddiad gyda chynnwys amod ychwanegol am lyfr Cofrestr Presenoldeb ar gyfer ymweliadau heb fod yn fwy na chyfnod o 28 diwrnod.

**Cais Rhif C/2023/0012**
**Unedau 2 & 3A (Home Bargains a Peacocks) Parc Manwerthu Lakeside Nantyglo Brynmawr NP23 4SL**
**Gosod llawr mezzanine yn Unedau 2 a 3A**

Hysbysodd y Swyddog Cynllunio yr Aelodau am ddau ddiwygiad yn yr adroddiad. Yn gyntaf dylai paragraff 1.8 ddarllen 'ar gyfer dibenion manwerthu' ar ddiwedd y paragraff ac yn ail, dylai paragraff 1.19 ar gyfer Uned 3A ddarllen 'gyda llawr mezzanine ar gyfer storio yn unig).

PENDERFYNWYD yn unol â hynny.

Mewn pleidlais

PENDERFYNWYD YMHELLACH yn unfrydol i **ROI** caniatâd cynllunio gyda'r amodau a nodir yn yr adroddiad.

Ni wnaeth y Cynghorydd Hodgins gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio.

**Cais Rhif C/2022/0309**
**Tir i dde Fair View, Ashvale, Tredegar**
**Datblygiad preswyl a gwaith cysylltiedig**

Ymunodd y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.

Yn dilyn trafodaeth

PENDERFYNWYD yn unfrydol i **ROI** caniatâd cynllunio a rhoi pwerau wedi eu dirprwyo i Swyddogion Cynllunio i wneud diwygiadau i'r amodau a fanylir yn yr adroddiad.

-

| | | |
|---|---|---|
| | **<u>Cais Rhif C/2022/0117</u>**<br>**<u>Clwb The Willows, Stryd yr Eglwys, Tredegar, NP22 3DS</u>**<br>**<u>Dymchwel y clwb cymdeithasol presennol a chodi (2 x pâr) o anheddau pâr 3 ystafell wely, gyda pharcio oddi ar y ffordd</u>**<br><br>Mewn pleidlais, pleidleisiodd 6 Aelod o blaid argymhelliad y swyddog, pleidleisiodd 3 Aelod yn erbyn argymhelliad y swyddog ac ymataliodd 1 Aelod ei bleidlais.<br><br>Ar hynny PENDERFYNWYD i **<u>ROI</u>** caniatâd cynllunio, gyda'r amodau a fanylir yn yr adroddiad.<br><br>**<u>Cais Rhif C/2023/0055</u>**<br>**<u>74A a Caleb Cottage, Stryd Brenin, Brynmawr, NP23 4RG</u>**<br>**<u>Cais i amrywio amodau 2 a 4 i ddiwygio darpariaeth parcio caniatâd cynllunio C/2022/0186 (Newid defnydd swyddfeydd llawr daear a llety byw ar y llawr cyntaf a'r ail lawr i greu dwy annedd ynghyd ag addasu a newid defnydd Caleb Cottage i un annedd ynghyd â gwaith allanol cysylltiedig, creu gardd a darparu parcio)</u>**<br><br>Yn dilyn trafodaeth<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i **<u>ROI</u>** caniatâd cynllunio a rhoi pwerau wedi eu dirprwyo i'r Swyddogion Cynllunio i wneud diwygiadau i amod 4 a fanylir yn yr adroddiad. | |
| **No. 6** | **<u>APELIADAU, YMGYNGHORIADAU A DIWEDDARIAD DNS EBRILL 2023</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 7** | **<u>RHESTR CEISIADAU A BENDERFYNWYD DAN BWERAU DIRPRWYEDIG RHWNG 25 CHWEFROR 2023 A 3 EBRILL 2023.</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Cymorth Busnes. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 8** | **ADRODDIAD DIWEDDARU GORFODI ERLYNIAD**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol ynghylch y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn neilltuol a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |